# Polisi Anabledd

## 1. Cyflwyniad

Mae Grŵp Prifysgol De Cymru (PDC) wedi ymrwymo i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae'n anelu at greu amgylchedd dysgu cynhwysol lle nad yw nodweddion personol unigolyn yn creu rhwystrau i gyfranogi. Mae'r Gwasanaeth Llesiant ac Anabledd fel rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru (PDC) wedi ymrwymo i brif ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy gydol ei holl weithgareddau, yn ogystal â bodloni'r dyletswyddau deddfwriaethol cyffredinol a phenodol a osodir arno drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r datganiad polisi hwn felly yn adeiladu ar weledigaeth a blaenoriaethau strategol y Grŵp.

## 2. Diffiniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith negyddol 'sylweddol' a 'thymor hir' ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau dyddiol arferol.

Mae'r Polisi Anabledd yn ymwneud â phob categori anabledd a gynhwysir yng nghanllawiau anabledd UCAS, sef

- Anhawster Dysgu Penodol (Dyslecsia, Dyspracsia neu AD(H)D)
- Anhwylder Cymdeithasol / Cyfathrebu / Anhwylder Sbectrwm Awtistig
- Dall / nam difrifol ar y golwg
- Byddar / nam difrifol ar y clyw
- Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. Canser, HIV, Epilepsi)
- Cyflwr Iechyd Meddwl (e.e. Iselder, Anhwylder Pryder, Sgitsoffrenia)
- Defnyddiwr cadair olwyn / problemau symudedd
- Anabledd, nam neu gyflwr meddygol nas rhestrir uchod.

## 3. Partneriaethau

Mae Prifysgol De Cymru yn cydweithio â nifer o wahanol ddarparwyr addysg i ddarparu ystod o gyrsiau mewn amrywiaeth o leoliadau yn y DU a thramor. Mae gan y Brifysgol gytundebau partneriaeth ar waith gyda'i phartneriaid masnachfraint lle mae'r sefydliad partner yn cymryd cyfrifoldeb am ddarparu dysgu ac addysgu

cynhwysol, cymorth ac addasiadau rhesymol i fyfyrwyr anabl, fel rhan o'i gylch gwaith ehangach.

Anogir myfyrwyr anabl i ystyried datgelu i'w Coleg a chymryd rhan mewn deialog ystyrlon gyda staff priodol er mwyn nodi addasiadau a chymorth priodol.

## 4. Dethol Derbyniadau

Ystyrir pob cais i raglenni addysg uwch a addysgir y Brifysgol yn unol â Polisi Derbyn y Brifysgol.

Mae dewis ymgeiswyr addas yn seiliedig ar ystyried teilyngdod academaidd, talent a photensial. Rhaid i bob ymgeisydd fodloni'r isafswm gofynion mynediad fel y nodir yn y Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir. Ystyrir ceisiadau a dderbynnir gan ymgeiswyr anabl yn unol â'r polisi uchod a Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol.

Unwaith y caiff myfyriwr ei dderbyn i un o'n cyrsiau, bydd y Brifysgol yn ceisio sicrhau bod myfyrwyr anabl yn cael mynediad at yr adnoddau a'r cyfleusterau sydd eu hangen i gymryd rhan lawn ym mywyd prifysgol cyn belled ag y bo modd, yn gyfartal â chyfleoedd myfyrwyr nad ydynt yn anabl.

Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cydnabod bod nodweddion safle ac ystyriaethau ariannol yn ei gwneud yn amhosibl datgan polisi y gellid bodloni gofynion unrhyw fyfyriwr, beth bynnag fo'i nam. Felly mae'n hanfodol bod ymgeiswyr a myfyrwyr yn cael arweiniad ar y cyfle cyntaf posibl, er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas ag addasrwydd astudiaeth AU ym Mhrifysgol De Cymru.

## 5. Adnabod ac ymgysylltu cynnar

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn bwysig nodi gofynion penodol oherwydd anabledd neu anhawster dysgu penodol (e.e. dyslecsia), cyn gynted â phosibl, fel y gellir gwneud yr addasiadau rhesymol angenrheidiol yn brydlon.

Anogir ymgeiswyr / myfyrwyr anabl i ystyried datgelu i'r Brifysgol a chymryd rhan mewn deialog ystyrlon gyda staff priodol y Brifysgol er mwyn nodi addasiadau a chymorth priodol. Dilynir datgeliadau anabledd gan y Gwasanaeth Anabledd, gyda chynnig cyfarfod gyda Chynghorydd Anabledd i drafod gofynion unigol, addasiadau rhesymol a chymorth.

Mae'r Brifysgol yn rhagweithiol wrth ddarparu cyfleoedd ar gyfer datgelu ac adnabod yn gynnar yn y ffyrdd canlynol:

- Mae darpar fyfyrwyr sy'n mynychu digwyddiadau marchnata'r Brifysgol (e.e. Diwrnodau Agored), yn cael gwybodaeth am y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael.
- Wrth ymgeisio a chofrestru, mae myfyrwyr yn cael cyfleoedd i hunan-adnabod unrhyw anabledd, a allai fod yn berthnasol i'w hastudiaethau yn eu barn hwy.

- Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi gwybodaeth a chanllawiau digidol cyfredol, sy'n annog datgeliad cynnar ac ymgysylltiad â gwasanaethau cymorth trwy ei gwefannau allanol a mewnol.
- Cynghorir myfyrwyr sy'n symud i'r ardal i gofrestru gyda Gwasanaeth Iechyd PDC a Meddygfa leol. Bydd myfyrwyr, sy'n datgelu anabledd ar eu cofrestriad Gwasanaethau Iechyd PDC, yn cael cyngor ac arweiniad ar gymorth a gwasanaethau eraill (e.e. Gwasanaeth Anabledd) fel y bo'n briodol.
- Gwahoddir myfyrwyr, sy'n gwneud cais i / yn byw yn Neuaddau Preswyl y Brifysgol, i ddarparu gwybodaeth am anabledd neu unrhyw ofynion penodol eraill a rhoddir cyngor ac arweiniad iddynt ar gymorth a gwasanaethau eraill (e.e. Gwasanaeth Anabledd) fel y bo'n briodol.

## 6. Cymorth

Nid oes gan Brifysgol De Cymru gyfrifoldeb deddfwriaethol i ddiwallu anghenion cymorth, nad ydynt yn gysylltiedig â'r byd academaidd (e.e. gofal meddygol, gofal personol a gofynion byw â chymorth). Mae gofynion cymorth nad ydynt yn addysgol yn dod o fewn cylch gwaith y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nod y Brifysgol yw sicrhau bod ei chyfleusterau ffisegol, cymdeithasol a hamdden yn hygyrch i fyfyrwyr anabl ar gyfer amgylchedd cynhwysol.

Bydd y Brifysgol yn ceisio sicrhau bod myfyrwyr, sydd wedi datgan anabledd ac wedi darparu tystiolaeth addas, yn gallu cael gafael ar gymorth priodol *sy'n gysylltiedig ag astudio* drwy gydol eu hastudiaeth yn y Brifysgol.

- Bydd Ymgynghorwyr Anabledd yn gweithio ochr yn ochr â myfyrwyr anabl, i nodi addasiadau a chymorth rhesymol priodol yn unigol. Bydd hyn yn arwain at greu Cynllun Cymorth Unigol, sy'n amlinellu'r addasiadau a'r cymorth rhesymol priodol.
- Ymdrinnir â gwybodaeth a ddatgelir i'r Gwasanaeth Anabledd fel gwybodaeth sensitif a chyfrinachol o fewn terfynau Cod Cyfrinachedd Gwasanaethau Myfyrwyr.
- Yn unol â gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), a pholisi diogelu data PDC, gofynnir i ymgeiswyr / myfyrwyr roi eu caniatâd ysgrifenedig i rannu gwybodaeth sensitif berthnasol gan y Gwasanaeth Llesiant ac Anabledd gyda staff perthnasol y Brifysgol a rhanddeiliaid allanol (h.y. Cyllid Myfyrwyr). Er nad yw cydsyniad yn orfodol, cynghorir myfyrwyr y gallai atal cydsyniad effeithio ar allu'r Brifysgol i ymateb yn briodol i'w hanghenion yn ymwneud ag anabledd.
- Gofynnir i fyfyrwyr ddarparu dogfennaeth gan ymarferydd â chymwysterau priodol sy'n amlinellu natur ac effaith eu hanableddau.
- Mae'r Gwasanaeth Anabledd yn cynnig sgrinio am ddim ar gyfer Anawsterau Dysgu Penodol a chefnogaeth i drefnu asesiad diagnostig ar y safle gydag asesydd â chymwysterau priodol. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y baich ariannol anghymesur a roddir ar fyfyrwyr sydd angen asesiad ar gyfer Anawsterau

Dysgu Penodol ac yn ymdrechu i ddarparu cymorth gyda chostau asesu lle bo modd.

## 7. Lwfansau Myfyrwyr Anabl:

- Rhoddir cymorth i fyfyrwyr wneud cais am Lwfansau Myfyrwyr Anabl a mathau eraill o gymorth ariannol (fel sy'n briodol). Mae Cyllid Myfyrwyr Anabl yn gynllun ariannu gan y llywodraeth, a weinyddir gan Cyllid Myfyrwyr i fyfyrwyr Cartref sy'n astudio ar gwrs Addysg Uwch dynodedig o werth credyd digonol. Penderfynir ar gymhwyster ar gyfer Lwfansau Myfyrwyr Anabl gan Cyllid Myfyrwyr, yn unol *â'u* polisïau a'u rheoliadau.
- Fel rhan o'r cynllun hwn, bydd gofynion cymhwysedd a chymorth unigol myfyriwr yn cael eu hasesu'n annibynnol a bydd pecyn cymorth priodol yn cael ei argymell a'i ddarparu.
- Er y gall y Brifysgol roi *cymorth* i lywio proses ymgeisio ac asesu Lwfansau Myfyrwyr Anabl, *mae'r broses ei hun* y tu allan i gylch gwaith y Brifysgol.
- Dylid cyfeirio cwynion sy'n ymwneud â phrosesu cais am Lwfansau Myfyrwyr Anabl, Cymhwyster ar gyfer y Cynllun neu faterion sy'n ymwneud â darparu nwyddau a gwasanaethau gan ddarparwyr annibynnol dan gontract Cyllid Myfyrwyr, at Cyllid Myfyrwyr yn uniongyrchol.

## 8. Rheoliadau a Pholisïau

Mae pob myfyriwr yn ddarostyngedig i reoliadau a pholisïau'r Brifysgol waeth beth fo'u Hanabledd. Mae polisïau, rheoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol wedi'u datblygu i sicrhau nad ydynt yn rhoi myfyrwyr anabl dan anfantais a bod cymorth priodol ar gael.

- Rheoliadau Academaidd ar gyfer Cyrsiau a Addysgir
- Camymddwyn Academaidd
- Ffitrwydd I Ymarfer
- Ffitrwydd I Astudio
- Amgylchiadau Esgusodol
- Ymddygiad Myfyrwyr
- Cwynion Myfyrwyr

Mae rhagor o wybodaeth a chyngor am reoliadau a pholisïau'r Brifysgol ar gael gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr o fewn Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol.

## 9. Monitro ac Adrodd

Mae'r Brifysgol yn dynodi aelod o'r Gyfarwyddiaeth i fod â chyfrifoldeb penodol am ddarpariaethau anabledd.

Mae Strwythur y Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn adrodd i'r Gyfarwyddiaeth ac mae'n gyfrifol am fonitro gweithrediad y Polisi.

Mae'r DQAC yn sicrhau bod Byrddau'r Cynllun yn ystyried ac yn adrodd ar eu darpariaeth ar gyfer myfyrwyr anabl fel rhan o'r broses monitro cyrsiau blynyddol.

| Diwygiad Cronoleg | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif Fersiwn** | **Dyddiad Effeithiol** | **Awdur diwygio** | **Rheswm dros y diwygiad** | **Cymeradwywyd gan** |
| 1.0 | | Amherthnasol | Rhifyn Cyntaf | |
| 2.0 | 29.10.18 | Sarah Page | Mân ddiwygiadau ynghylch: Enw Gwasanaeth | |
| 3.0 | 08.07.19 | Sarah Page | | |
| 3.1 | 17.01.20 | Sarah Page | Mân ddiwygiadau | |
| 3.2 | 01.02.22 | Sarah Page | Mân ddiwygiadau | |
| 3.3 | 24.05.22 | Sarah Page | Mân ddiwygiadau | |